

Annwyl Cyfarwyddwr

## Adolygiad AGC o Berfformiad Awdurdod Lleol

Cyhoeddwyd ein cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2019 a oedd yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn;
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion;
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae'n dilyn pedwar egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Caiff y cynnwys ei lywio gan ein harolygiad o'r gwasanaethau oedolion ym mis Mawrth 2019 a gweithgarwch gwerthuso perfformiad yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys y 'cyfarfod her', a gynhaliwyd yng nghyd-destun arolygiad AGC o wasanaethau i blant sy'n derbyn gofal/y rheini sy'n gadael gofal, a chyfarfodydd a gynhelir ddwywaith y flwyddyn â phenaethiaid y gwasanaethau perthnasol.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Swyddfa Caerfyrddin  
Llywodraeth Cymru  
Adeiladau'r Llywodraeth  
Heol Picton  
Caerfyrddin  
SA31 3BT  
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

☎ 0300 790 0126  
☎ 0872 437 7303  
✉ [CIWLocalAuthority@gov.wales](mailto:CIWLocalAuthority@gov.wales)

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Y Swyddfa yng Nghaerfyrddin  
Llywodraeth Cymru  
Adeiladau'r Llywodraeth  
Heol Picton  
Caerfyrddin  
SA31 3BT  
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaethom drafod y materion hyn ynghyd â'n gweithgarwch gwerthuso perfformiad arfaethedig ar gyfer 2019/20 â chi yn y cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol ar 3 Ebrill 2019.

### Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

- Lles

Mae'r awdurdod lleol wedi dangos dealltwriaeth gadarn o'i gryfderau ei hun ynghyd â meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach, neu lle mae rhwystrau i gynnydd pellach yn gofyn am sylw ychwanegol gan reolwyr a/neu adnoddau er mwyn cyflawni'r canlyniadau disgwylidiedig.

Mae cymorth corfforaethol ar gyfer datblygiad y gwasanaethau cymdeithasol, sy'n cyd-fynd â dealltwriaeth yn y cyngor ehangach o'r heriau y mae'n eu hwynebu i barhau i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae enghraifft o hyn yn cynnwys cydnabod y ffaith bod cynnal gwasanaethau yn y gymuned, fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden, yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar hyrwyddo a chynnal llesiant cyffredinol pobl.

Ochr yn ochr â hyn, mae cydnabyddiaeth o'r angen i ddiweddarau darpariaeth llety oedolion mewnol yr awdurdod lleol, yn unol ag anghenion a disgwyliadau newidiol pobl. Mae angen cynnal a chyflymu datblygiad y newid hwn er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn unol ag anghenion presennol ynghyd â rhai a ragwelir. Mae'r bwriad i estyn cyfleusterau gofal ychwanegol ymhellach, yn seiliedig ar adeilad newydd llwyddiannus yn Talbot Green a'r adeilad newydd ar safle cyfleuster gofal preswyl blaenorol, yn enghraifft o ymateb ymarferol yr awdurdod lleol i'r angen hwn a nodwyd.

Gall pobl fod yn hyderus bod yr awdurdod lleol yn cydnabod mai'r bobl sydd yn y sefyllfa orau i fynegi barn ar eu llesiant eu hunain a bod ganddo systemau effeithiol ar waith i helpu i gefnogi a chyflwyno hyn. Mae'n cydnabod nad yw'r systemau sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer nodi a chefnogi anghenion gofalwyr mor gadarn ag y dylent fod a bod angen eu hatgyfnerthu.

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i atgyfnerthu ei ddull gweithredu ar gyfer sicrhau ansawdd, gyda menter y Panel Sicrhau Ansawdd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a gyflwynwyd yn ddiweddar yn dilyn adolygiad annibynnol. Mae model sicrhau ansawdd trosgynnol diwygiedig hefyd yn cael ei roi ar waith mewn perthynas â'r gwasanaethau oedolion. Mae hyn yn seiliedig ar amserlen archwilio sy'n pwysleisio cryfderau ac yn hyrwyddo dysgu o arfer.

- Pobl – llais a rheolaeth

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i wneud cynnydd o ran gweithredu Safonau'r Gymraeg ac mae'r holl ddogfennaeth gyhoeddus bellach ar gael yn Gymraeg. Mae'r cynnig rhagweithiol wedi'i ymgorffori bellach ac mae'r awdurdod lleol yn parhau i fonitro ceisiadau am asesiadau a gwasanaethau eraill yn Gymraeg, ond nid oes llawer ohonynt. Hyrwyddwr y Gymraeg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sy'n arwain portffolio'r gwasanaethau oedolion ac mae'n mynd ati i hyrwyddo'r iaith a chynyddu ymwybyddiaeth ohoni yn y gweithle.

Yn ystod ein harolygiad o'r gwasanaethau oedolion, gwelsom fod ymarferwyr yn uchel eu cymhelliant ac yn fedrus iawn wrth sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed, gan sicrhau bod hyn yn cael ei ymgorffori yn yr asesiad o'u hanghenion, mewn cynllunio dilynol ac yn y ffordd y darperir gofal a chymorth wedi'u personoli. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith yn hyn o beth mewn perthynas â gofalwyr. Mae angen gwella cysondeb y broses ar gyfer gwranddo ar lais y gofalwr a nodi ei anghenion, ac mae angen sicrhau cymorth gwell i ofalwyr er mwyn eu galluogi i gyflawni eu canlyniadau llesiant eu hunain.

Mae'r awdurdod lleol wedi nodi y bydd yn blaenoriaethu datblygiad y gweithlu a chynllunio ar ei gyfer yn y dyfodol. Mae heriau penodol yn parhau o ran cadw staff mwy profiadol mewn rhai timau. Mae gallu mewn rhai timau gofal a chymorth i oedolion yn cael ei adolygu oherwydd pwysau gwaith a nodwyd. Mae'n galonogol nodi'r duedd ddiweddar tuag at i lawr yn nifer y staff yn y gwasanaethau plant.

Dywedodd rhai pobl sy'n gadael gofal y siaradwyd â hwy fel rhan o'n gweithgarwch ymgysylltu wrthym eu bod angen i'r gefnogaeth a gawsant gan yr awdurdod lleol fod yn fwy cyson. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gweithio mewn partneriaeth â'r rheini sy'n gadael gofal i wella'r amrywiaeth o lety sydd ar gael iddynt. Mae angen datblygu ymyriadau mwy effeithiol i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg na chyflogaeth.

Gwelsom fod angen gwella cysondeb y dull o wrando'n weithredol ar lais pobl a'u teuluoedd neu eu cynrychiolwyr ac ymateb iddynt yn y broses ddiogelu. Cydnabyddir bod angen datblygu ymhellach o ran gallu i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i oedolion.

Mae ein gwaith i fonitro'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn debyg i lawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i fonitro hyn.

- Atal

Gellir rhoi sicrwydd i bobl y byddant yn cael asesiad cadarn o'u hanghenion ac ymateb prydlon mewn perthynas â materion diogelu/amddiffyn. Mae rheolwyr strategol o adrannau iechyd a gofal cymdeithasol yn hyrwyddo dull gweithredu a rennir ar gyfer atal ac maent yn rhoi gwasanaethau ar waith sydd wedi'u hategu gan weledigaeth i gefnogi pobl yn eu cymunedau eu hunain.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i sefydlu hybiau cymunedol mwy cydlynol – mae un dull gweithredu ar gyfer hyn yn cael ei dreialu ar hyn o bryd. Pan fydd hyn wedi cael ei ymgorffori'n llwyddiannus, bydd yn hyrwyddo gwasanaethau a gaiff eu darparu mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol gyda'r nod o atal anghenion rhag gwaethygu ymhellach ac ymgysylltu'n well â phobl.

Cydnabyddir bod cael rhyngwyneb mwy effeithiol rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd yn allweddol i wella effeithiolrwydd Timau Iechyd Meddwl Cymunedol. Dylai 'adolygiad llawn o systemau' a gynhaliwyd yn ddiweddar helpu i lywio'r newidiadau hyn. Mae recriwtio a chadw staff mewn rhai rolau allweddol, megis Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy a Nyrsys Seiciatrig Cymunedol, yn parhau i fod yn her.

Mae rheolwr gwasanaeth newydd yn goruchwyllo datblygiadau yn y gwasanaethau Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl i oedolion gan y nodwyd bod angen canolbwyntio ar welliannau. Mae cael partneriaethau rhanbarthol effeithiol yn allweddol er mwyn datblygu hyn.

Mae'n rhy gynnar i asesu effaith y fenter 'teuluoedd gwydn' a lansiwyd yn ddiweddar sydd wedi cael ei chyfuno â darpariaeth blynyddoedd cynnar, ond mae'r dangosyddion cychwynnol yn galonogol gyda lleihad yn nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau gofal a chymorth wedi'u cynllunio. Adroddwyd bod prosesau cyfathrebu a chysondeb y pwynt cyswllt unigol ar gyfer plant wedi gwella.

Drwy gydol 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Casglwyd tystiolaeth ansoddol o arolygiadau plant a maethu chwe awdurdod lleol, 22 o hunanwerthusiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol, cyfarfodydd her a gynhaliwyd gyda'r awdurdodau lleol hynny nad oeddent yn destun arolygiad, a gweithgarwch ymgysylltu gyda phlant â phrofiad o ofal, y rhai oedd wedi gadael gofal a gofalwyr maeth. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan ac amlinellir y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, arfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu hystyried gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at ymdrin â'r canfyddiadau hyn.

- Partneriaethau

Mae cydberthnasau gweithredol a strategol effeithiol â phartneriaid rhanbarthol eraill wedi hwyluso rhai prosiectau blaengar, megis y fenter mewn ysbytai sy'n cynnwys amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, Cadw'n Iach Gartref. Mae hyn yn dangos ymrwymiad cryf i gydgyhyrchu ar draws ei wasanaethau. Mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn ymwybodol bod angen sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y fenter hon a phrosiectau eraill sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol gan eu bod yn ddibynnol ar gyllid grant, byrdymor yn y cyfamser.

Gwelsom fod dull gweithredu amlddisgyblaeth effeithiol yn yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth yn cynorthwyo gyda hyrwyddo arfer diogelu cadarn.

Mae datblygu trefniant rhanbarthol newydd Cwm Taf Morgannwg wedi arwain at sefydlu nifer o drefniadau 'cysgodi' yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Bydd angen llawer o waith o hyd er mwyn cydlynu trefniadau lleol a rhanbarthol blaenorol.

### Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2019/20

Bydd ein rhaglen arolygu thematig wedi'i threfnu ar gyfer y gwasanaethau oedolion yn 2019/20 yn canolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn, ac ar gyfer yr arolygiad thematig o wasanaethau plant, bydd y ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. Os caiff eich awdurdod lleol ei ddewis i gael ei gynnwys yn y rhaglen hon, byddwch yn cael pedair wythnos o rybudd o ddyddiad yr arolygiad.

Byddwn yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cyd-fynd â'r arolygiadau thematig a byddwn yn cyfarfod â phobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal chymorth. Bydd AGC yn

cynnull cyfarfod â'r awdurdod lleol a'i bartneriaid allweddol yn ystod yr haf i adolygu meysydd a nodwyd yn yr hunanwerthusiad a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2019 gan ganolbwyntio ar yr hunanwerthusiad o waith atal a gwaith i hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn. Caiff adroddiad cenedlaethol thematig ei gyhoeddi ar ôl i'r arolygiadau a'r gweithgareddau ymgysylltu gael eu cwblhau.

Tua diwedd 2019, byddwn yn treialu arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant. Caiff yr arolygiad ar y cyd ei arwain gan AGC ac mewn partneriaeth ag AGIC, Estyn, Arolygiaeth Cwnstabwliaeth Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Cwnstabwliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Gyda'r pwyslais ar gydweithredu ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill i rannu gwybodaeth ac i gynllunio arolygiadau ar y cyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i rannu gwybodaeth er mwyn cefnogi gwelliannau i wasanaethau gofal cymdeithasol.

Bydd AGC yn parhau i weithio gydag AGIC yn 2019/2020 gan arolygu timau iechyd meddwl cymunedol ar y cyd. Bydd AGC yn cymryd camau dilynol i adolygu argymhellion a wnaed yn ystod adolygiad thematig ar y cyd AGIC ac AGC o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol fel rhan o gyfarfodydd rhwng pennaeth y gwasanaeth ac awdurdodau lleol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

Mae'n debygol y bydd ein gweithgaredd â ffocws gyda'r awdurdod lleol yn cynnwys peth gwaith dilynol ar agweddau a nodwyd yn yr arolygiad diweddar o'r gwasanaethau oedolion, ynghyd â rhai gweithgareddau ymgysylltu yn ymwneud â'r datblygiadau diweddar yn y gwasanaethau plant.

Efallai y bydd hyn yn newid yn sgil materion sy'n dod i'r amlwg.

Sylwer bod y llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir



Sharon Eastlake  
**Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol Dros Dro**  
Arolygiaeth Gofal Cymru

Cc.  
SAC  
AGIC  
Estyn